

Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio

Inge Hack - trawsgrifiadau

Clip 1

Cyfwelydd: Fe wnaethoch chi sôn nawr am eich ffrind, bod hynny'n stori arall. Allwch chi ddweud wrtha i am hynny?

IH: Erica? Ie, wel ry'n ni'n dal yn ffrindiau hyd heddiw. Roedd ein rhieni'n ffrindiau mawr. Dwi'n meddwl bod fy mam yn ffrindiau gyda mam Erica hyd yn oed cyn iddi briodi achos dwi'n meddwl efallai ei bod hi wedi dod o Fürth, a dyma nhw'n dod i, fe adawon nhw'r Almaen tua 19..., o bosib '36, allwn i ddim bod yn siŵr.

Ac yn gyntaf aethon nhw i'r Eidal ac wedyn daethon nhw i Loegr, ac fe wnaethon nhw ymgartrefu yng Nghaerdydd lle'r oedd stad fach, ym..., beth fydden ni nawr yn ei alw'n stad ddiwydiannol.

Ac os, os oedden nhw'n... pe bai'r, y gweithwyr Iddewig-a ffoaduriaid oedden nhw'n bennaf a llawer o Nuremberg-yn dechrau eu ffatrïoedd eto ac yn cyflogi cymaint o bobl Seisnig, roedden nhw'n cael, fe gawson nhw ganiatâd-a gawson nhw grant hefyd dwi ddim yn siŵr-ond fe gawson nhw ganiatâd i ddechrau eu ffatrïoedd, ac roedd gan dad Erica ffatri fach. Roedden nhw'n gwneud cesys bach ar gyfer cribau. Chi'n gwybod, y cesys hynny ar gyfer crib a drych? Chi'n gwybod, y math yna o beth.

A phan aeth pethau'n wael ar ôl, ar ôl y Noson Grisial, aeth mam Erica, gydag Erica, o gwmpas y gymuned Iddewig yng Nghaerdydd a gofyn a fydden nhw, unrhyw un, yn barod i gymryd merch fach 12 nes y gallai ei rhieni ddod allan i'w chasglu hi.

Ac fe wnaeth y wraig yma, Mrs Gordon, Edith Gordon, a oedd yn 60 oed ar y pryd—ac roeddwn i'n blentyn oedd wedi'i ddifetha'n ofnadwy—dywedodd "Ie", y byddai hi. Felly, pan ddes i gyda Kindertransport ychydig fisoedd yn ddiweddarach roedd gen i rywun i fynd ato yn barod.

Felly, mewn ffordd fe wnaeth hi achub fy mywyd oherwydd pe na bawn i wedi cael noddwr, efallai na fyddwn wedi mynd ar y Kindertransport.

Clip 2

IH: Dyma Grandma Gordon, y wraig wych, garedig a gymerodd y ferch fach yma, o'r Almaen.

Cyfwelydd: A phryd gafodd y llun ei dynnu?

IH: A byddai wedi cael ei dynnu, dwi'n dychmygu '39, 1939.

Cyfwelydd: Ac yn lle?

IH: Yng Nghaerdydd gan ffotograffydd proffesiynol.